# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)- 04-07(p.1): 8 Tachwedd 2007

### Ymchwiliad y pwyllgor i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru

### Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi, cytunodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ymgymryd ag ymchwiliad penodol i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a chyhoeddi eu hargymhellion erbyn dechrau toriad y Nadolig er mwyn iddynt gael dylanwad cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2008.

### Cylch gorchwyl

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw:

craffu ar gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn fwy hygyrch yng Nghymru; a

gwneud argymhellion ar y camau y dylid eu cymryd i wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio erbyn Etholiadau Lleol mis Mai 2008

drwy gyfeirio at adroddiad Etholiadau'n Eithrio 2007 gan Scope Cymru; Adolygiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus o Drefniadau Etholiadol yng Nghymru ac unrhyw enghreifftiau o arfer da.

#### Themâu allweddol

Yn ystod yr ymchwiliad, cyflwynwyd tystiolaeth i Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal gan amrywiaeth o dystion yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r rhai sy'n trefnu etholiadau a sefydliadau sy'n cynrychioli etholwyr anabl. Roedd y tystion yn cytuno'n gyffredinol bod awdurdodau lleol wedi ymdrechu i wella hygyrchedd corfforol gorsafoedd pleidleisio a bod mynediad yn well yn ystod etholiad y Cynulliad yn 2007 nag yn ystod etholiadau blaenorol. Fodd bynnag, clywodd Aelodau'r Pwyllgor enghreifftiau o amrywiaeth o broblemau a brofwyd gan etholwyr anabl yn ystod etholiad mis Mai. Cydnabu tystion â chyfrifoldeb dros drefniadau etholiadol fod problemau o ran hygyrchedd yn parhau mewn rhai gorsafoedd pleidleisio a nodwyd nifer o resymau dros hyn, a cheir crynodeb o'r rhain isod:

Roedd rhai problemau'n deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â hygyrchedd, ymarfer da a chanllawiau ymysg staff etholiadol.

Roedd rhai problemau'n deillio o'r pwysau o ran adnoddau ar awdurdodau lleol yn ystod etholiadau 2007.

Rhaid i staff etholiadol ystyried rhai blaenoriaethau sy'n gwrthdaro na ellir eu datrys yn hawdd. Er enghraifft, hygyrchedd corfforol a phwysigrwydd lleoliad canolog i annog mwy o bobl i bleidleisio.

Diffyg adeiladau cyhoeddus hygyrch mewn rhai ardaloedd, er enghraifft mewn pentrefi ar lethrau serth.

Dywedodd tystion sy'n cynrychioli staff etholiadol er bod cyfraniad Arolwg Etholiadau'n Eithrio yn un pwysig, gan ei fod hefyd yn codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â hygyrchedd, nid yw'n rhoi'r wybodaeth fanwl sydd eu hangen ar staff etholiadol i'w galluogi i wella'r system.

Dyma grynodeb o'r prif faterion a rhai atebion posibl a gyflwynwyd gan dystion:

### 1. Yr angen am sail dystiolaeth fwy cadarn i gynllunio gwelliannau

#### Materion

Mae angen tystiolaeth fwy cadarn i fesur y sefyllfa bresennol. Nid oes modd cymharu canlyniadau arolygon diweddar ag arolygon blynyddoedd cynt ac nid ydynt yn nodi'r ardaloedd lle mae mynediad corfforol yn arbennig o dda neu'n arbennig o ddiffygiol.

#### Atebion posibl

Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu rhaglen o arolygon hygyrchedd cyson a fydd yn nodi lle y mae angen gwelliannau ac yn galluogi'r broses o fonitro gwelliannau blynyddol;

Gall pob Swyddog Canlyniadau baratoi adroddiad ar unrhyw gwynion neu broblemau mewn perthynas â'r orsaf bleidleisio yn syth ar ôl pob etholiad.

### 2. Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â hygyrchedd, arfer da a chanllawiau ymysg staff etholiadol

#### Materion

Gellir goresgyn nifer o rwystrau nad ydynt yn rhai corfforol (fel sicrhau bod papurau pleidleisio print bras ar gael mewn man amlwg) yn

hawdd drwy ddarparu hyfforddiant gwell i staff gorsafoedd pleidleisio.

Yn gyffredinol, cyflogir staff gorsafoedd pleidleisio am ddiwrnod y flwyddyn yn unig ac mae trosiant staff yn uchel. Yn aml, ychydig iawn o hyfforddiant a ddarperir cyn diwrnod yr etholiad.

Mae diffyg cysondeb o ran hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio ledled Cymru. Yn ogystal, nid yw safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn, e.e. gorsaf bleidleisio lle y darparwyd bwth pleidleisio lefel isel yn y gorffennol, ond nid oes un ar gael bellach.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn darparu llawlyfr ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n cynnwys canllawiau ar sut y dylid gosod gorsafoedd pleidleisio a rhestr gyfeirio. Gellir archebu hwn yn rhad ac am ddim drwy awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru wedi derbyn copi, ond nid pob un ohonynt.

**Atebion posibl**

Mae'r awgrymiadau'n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff etholiadol a chodi'u hymwybyddiaeth, mecanweithiau i sicrhau bod ymarfer da yn cael ei rhannu a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer cynnydd a hyrwyddo canllawiau presennol yn well, er enghraifft:

**Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth**

Gan mai gweithwyr cyngor yw staff gorsafoedd pleidleisio fel rheol, mae angen sicrhau bod hyfforddiant parhaus ar gael ar gydraddoldeb i bobl anabl ym mhob cyngor. Caiff staff etholiadol eu dewis yn ystod y broses o hyfforddi, felly bydd angen ategu'r egwyddorion perthnasol yn hytrach na dechrau o'r newydd cyn pob etholiad.

Mae angen ystyried ffyrdd mwy arloesol o ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb, er enghraifft e-ddysgu a fydd yn galluogi unigolion i gael hyfforddiant pan mae'n gyfleus iddynt.

Dylai hyfforddiant fod yn gysylltiedig â rôl yr unigolyn er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'i swydd.

Mae angen hyfforddiant "cydraddoldeb" i bobl anabl er mwyn sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio yn deall materion hygyrchedd ehangach megis pobl sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw ynghyd ag anawsterau hygyrchedd corfforol.

Dylai pobl anabl fod yn rhan o'r broses o ddatblygu a darparu hyfforddiant. Gellir cyflawni hyn drwy grwpiau mynediad lleol a grwpiau pobl anabl, ond mae hyn yn golygu bod angen ystyried capasiti grwpiau a hefyd pwy fydd yn ariannu'r grwpiau hyn.

Mae yna barodrwydd o ran mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol, grwpiau mynediad lleol a phobl anabl, a dylid annog hyn.

Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu i ariannu hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio.

Arfer da

Ceir enghreifftiau o arfer da, megis rhai awdurdodau'n cyflogi arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, ond mae angen rhoi'r egwyddor hon ar waith ledled Cymru.

Gellir gofyn i bob awdurdod lleol i gynnwys adran yn eu cynllun cydraddoldeb i bobl anabl sy'n canolbwyntio yn benodol ar fynediad i ddemocratiaeth.

Dylai pob swyddog canlyniadau ystyried prynu bwthiau pleidleisio lefel isel. Gellir arbed arian drwy wneud hyn ar y cyd.

Canllawiau

Mae angen hyrwyddo gwaith Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adeiladau hygyrch yn well, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod bod manylion adeiladau hygyrch ar gael.

Dylid rhoi copi o lawlyfr y Comisiwn Etholiadol i bob gorsaf bleidleisio, ac nid yn unig y gorsafoedd sy'n gwneud cais am gopi.

## 2. Pwysau ar adnoddau awdurdodau lleol

**Materion**

Pwysau a phroblemau a ddaeth i law yn sgil gofynion amserlennu "Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 "o ran y ddyletswydd i adolygu ardaloedd etholiadol a hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio erbyn 30 Rhagfyr 2007.

Diffyg staff llawn amser / staff sydd â dealltwriaeth a phrofiad o'r gwaith.

Mae gofynion ieithyddol, o ran y Gymraeg, yn bwysau ychwanegol.

**Atebion posibl**

Gellir gofyn i staff gorsafoedd pleidleisio gytuno i weithio am gyfnodau hwy, er enghraifft hyd nes diwedd eu cyfnod yn gweithio i'r awdurdod.

Gellir trafod faint o wybodaeth a gaiff ei chynnwys ar y papur pleidleisio rhanbarthol. Gall y papur pleidleisio gynnwys enwau'r pleidiau'n

unig gyda rhestr ar wahân yn cynnwys enwau'r ymgeiswyr a fydd ar gael i'r sawl sy'n gofyn amdani (DS - byddai hyn yn golygu newid deddfwriaeth).

Recriwtio mwy o staff etholiadol sy'n anabl.

**3.**

**Blaenoriaethau staff etholiadol sy'n gwrthdaro**

**Materion**

Rhaid i staff etholiadol ystyried yr effaith ar y nifer sy'n pleidleisio yn gyffredinol, neu o fewn grwpiau penodol, os gwneir penderfyniad ar leoliad a chynllun gorsafoedd pleidleisio ar sail mynediad corfforol yn unig.

**Atebion posibl**

Mae angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran materion anabledd ac anfon negeseuon cadarnhaol i helpu pobl i ddeall a derbyn newidiadau i'w gorsafoedd pleidleisio.

## 4. Materion o ran lleoliad

**Materion**

Diffyg adeiladau cyhoeddus hygyrch mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, pentref sydd ar lethr serth.

**Atebion posibl**

Dylid ystyried dulliau mwy creadigol o ran y mathau o adeiladau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio, e.e. archfarchnadoedd.